The Mullany Fund

# Creu Dyfodol Gyda'n Gilydd Rhaglen E-Fentora Gyrfaoedd

Cefnogi pobl ifanc yng Nghymru yn gydradd i fewn i gyrfaoedd STEM, gwyddorau bywyd a gofal iechyd

## Gwybodaeth ar gyfer ysgolion, colegau, sefydliadau ieuenctid ac hyfforddi


**Cefnogir Cronfa Mullany gan:** The Simon Gibson Charitable Trust, The Postcode Community Trust, The Mary Homfray Charitable Trust, The Foyle Foundation, The Oakdale Trust a Garfield Weston

**Cefnogwyd yn gynt gan:** The National Lottery Fund, Great Western Railway, The Karim Brass Foundation, The Austin Bailey Foundation, Children in Need, The Principality Building Society Future Generations Fund, a'r The Ironmongers' Foundation


See Science Gweld Gwyddoniaeth

EESW STEM Cymru

STEM Ambassadors Partner Wales

Gwaith Ieuenctid Cymru | Youth Work Wales

Mullany e-Mentoring

Finalist

ENILLYDD 2024
WINNER 2024

WALES STEM AWARDS

# Pwy ydym ni?

- Mae Cronfa Mullany yn elusen symudedd cymdeithasol sydd wedi'i lleoli ym Mhrifysgol Abertawe. Ers sefydlu yn 2008, ein nod yw lleihau’r rhwystrau sydd i bobl ifanc yng Nghymru, wrth iddynt ymgeisio am yrfaoedd STEM.
- Mae symudedd cymdeithasol yng Nghymru yn isel. Ein hymrwymiad yw rhoi'r cyfle a'r gefnogaeth i bobl ifanc archwilio eu dyfodol, er mwyn gwella rhagolygon unigolion ac i gryfhau ac amrywio’r gweithlu STEM a gofal iechyd.
- Rydym yn canolbwyntio ein hadnoddau - ac amser ein mentoriaid - ar y bobl ifanc nad sydd â chysylltiadau a chyngor gyrfa trwy ffrindiau a theulu.



**1-1 e-Fentora** → **Sgyrsiau Mewnwelediad** → **Llwybrau’r Dyfodol**

# Pwy ydym ni'n mentora?

Fel elusen symudedd cymdeithasol, rydym yn ymwybodol o’r anghyfartaledd ymysg pobl ifanc, o ran prinder cysylltiadau gyrfa drwy ffrindiau a theulu. Rydym yn anelu ein rhaglenni'n benodol at bobl ifanc sy'n bodloni un neu fwy o'n meini prawf:

- **01** Mynychu ysgol gyda cyfradd 20%+ o fyfyrwyr Prydau Ysgol am Ddim
- **02** Rhieni heb fynychu prifysgol
- **03** Mewn gofal neu'n ofalwr ifanc
- **04** Yn derbyn Prydau Ysgol am Ddim
- **05** Yn byw mewn ardal yn 20% isaf y WIMD
- **06** Mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg
- **07** Anabledd cofrestredig

# Beth yw Creu Dyfodol Gyda’n Gilydd?

Wedi tyfu o beilot yn 2014 yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, ein rhaglen ganolog yw **Creu Dyfodol Gyda’n Gilydd, enillydd y Rhaglen Addysgiadol Orau STEM Cymru yn 2024.**

Hyd yn hyn, rydym wedi gweithio mewn 8 ardal yn Ne Cymru. Mae ein grŵp o **300+ o fentoriaid** wedi gweithio gyda **2000+ o bobl ifanc mewn 50+ ysgol/coleg.**

Tair cam sydd i'r rhaglen, gan ddechrau gyda'n **e-fentora dwyieithog**, a gyflwynir trwy ein **ap – Mentora**.

Ar ôl cwblhau rhaglen 10 wythnos ar-lein gyda'r mentor, mae yno gynigion o **Sgyrsiau Mewnwelediad.** Ac i rai, gallwn drefnu profiad gwaith fel **opsiwn dilynol, sef Llwybrau'r Dyfodol.**

Drwy ein ap, rydym yn paru'r myfyriwr gyda **mentoriaid arbenigol, sy'n gweithio neu'n astudio yn y maes gwaith** o ddiddordeb i’r person ifanc.

# Ein mentoriaid

- Mae ein mentoriaid ymroddedig yn dod o **43 o wahanol arbenigeddau** STEM, gwyddorau bywyd, peirianneg a gofal iechyd. Maent i gyd yn wirfoddolwyr ac wedi eu **gwirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.**
  Gan fod ein Ap Mentora yn llwyfan mentora mewnol, gallwn fod yn sicr o'i ddiogelwch. Mae pob neges a anfonir ar Mentora yn **cael ei chymedroli.**

# Sut mae e-Mentora'n gweithio?

## 01 Cofrestru

Mae myfyrwyr yn cofrestru ar-lein ac yn dewis eu diddordebau gyrfa o'n meysydd cymorth sydd ar gael

## 02 Paru

Gan ddefnyddio ein meddalwedd, rydym yn paru myfyrwyr â mentoriaid, yn ôl diddordebau gyrfa'r person ifanc ac arbenigeddau'n mentoriaid

## 03 Mentora

Yn ystod 'sesiwn' 8-10 wythnos, mae myfyrwyr a mentoriaid yn cyfnewid negeseuon dros ein ap, sy'n cael ei gymedroli a'i ddiogelu

# Ystyriaeth i gwaith a bywydau prysur

- Mae Mentora Mullany yn rhaglen ar-lein, **ddi-dâl.** Rydym yn cynnal 3 'sesiwn' e-Fentora o 10 wythnos, law yn llaw â thymhorau'r ysgol. Gall y person ifanc neu'r staff ddewis pa dymor i ddilyn.

- Mae'r negeseuo yn digwydd pan fo'n gyfleus i'r ddau, er mwyn hwyluso mynediad. Yr unig disgwyliad yw ymrwymiad gan y person ifanc i anfon **o leiaf un neges yr wythnos** - felly 10 neges ar draws y tymor.

- Wrth gwrs - mae llawer o fyfyrwyr yn cysylltu'n llawer amlach, ac mae ein mentoriaid yn frwd i ateb eu cwestiynau!

# Gweithio gydag athrawon ac arweinwyr ieuenctid

- Byddwn yn gofyn i staff **ddewis yn ofalus** y bobl ifanc a fydd yn elwa fwyaf o gefnogaeth ein mentoriaid

- Byddwn yn arwyddbostio cyhoeddusrwydd i'w rannu ar ein **sianel Youtube:**

  Together Making Futures
  Creu Dyfodol Gyda'n Gilydd

- Fe fydd diweddariad i staff yn wythnosol ynglŷn â sut mae myfyrwyr yn ymgysylltu â'u mentoriaid.

- Rydym yn croesawu ceisiadau dilynol gan athrawon ac arweinwyr ieuenctid ar gyfer Sgyrsiau Mewnwelediad; mae rhain yn ddathliad defnyddiol ar ddiwedd ac yn ystod y tymor, wrth i'r bobl ifanc cwblhau eu e-Mentora.

# Gwybodaeth ychwanegol


- Mae'r ap ar gael yn y **Gymraeg a'r Saesneg.** Byddwn yn ymdrechu i ymateb i geisiadau gan bobl ifanc am fentor sy'n siarad Cymraeg (ac felly'n gallu negeseuo yn Gymraeg) – yn ddibynnol ar y arbenigedd y mentor.

- Yn ystod y cyfnod mentora 10 wythnos, rydym yn canolbwyntio ar **Themâu Wythnosol**, gan anfon adnoddau a syniadau i arwain y sgyrsiau ar-lein rhwng myfyrwyr a mentoriaid. Mae'r themâu wythnosol yn oedran-briodol: er enghraifft opsiynau TGAU, cefnogaeth i'r Fagloriaeth.

- Gall myfyrwyr cymwys aros gyda Mentora am fwy nag un tymor, os hoffent **archwilio gyrfa arall** gyda mentor â chymwysterau gwahanol. Neu gallent **aros ymlaen gyda'r un mentor.**

- Gall myfyrwyr hefyd ddewis i ymuno yn ein **rhwydwaith o gyn-fyfyrwyr**, gan dderbyn diweddariadau a chyfleoedd allanol mewn cylchlythyr rheolaidd.

- Rydym yn croesawu **lleisiau pobl ifanc**; croeso i chi fod yn rhan o'n panel ieuenctid newydd.




# e-Mentora Mullany


Ydych chi'n ystyried gyrfa STEM, gwyddor bywyd neu gofal iechyd? Efallai fod angen cefnogaeth am eich opsiynau ar gyfer y dyfodol, a'r llwybrau?

Gall pobl ifanc yng Nghymru (14-19 oed) gofrestru ar gyfer rhaglen ddi-dâl, ar-lein gan Gronfa Mullany: *Tomorrow Making Futures*. Fe gysylltwn ni chi gyda mentor arbenigol yn y maes sydd yn eich diddori, ac fe fydd eich mentor yn rhoi cyngor wedi'i haddasu'n bersonol drwy ein ap.


MEDICINE/ MEDDYGAETH


RESEARCH SCIENCE/GWYDDONIAETH YMCHWIL


MARINE BIOLOGY/BIOLEG MOROL


NURSING/ NYRSIO


FORENSIC SCIENCE/ GWYDDONIAETH FFORENSIC



DENTISTRY/ DEINTYDDIAETH


PSYCHOLOGY/ SEICOLEG



ECOLOGY/ ECOLEG


ENGINEERING/ PEIRIANNEG



MIDWIFERY/ BYDWREIGIAETH


OPTOMETRY/ OPTOMETREG


AUDIOLOGY/ AWDIOLEG


RADIOGRAPHY/ RADIOGRAFFEG


PARAMEDICINE/ GWYDDONIAETH BARAFEDDYGOL


CHEMISTRY/ CEMEG


VETERINARY SCIENCE/ GWYDDONIAETH FILFEDDYGOL


PHYSIOTHERAPY/ FFISIOTHERAPI


PHARMACY/ FFERYLLFA


BIOLOGY/ BIOLEG


HEALTHCARE SCIENCE/ GWYDDONIAETH GOFAL IECHYD




## Dysgwch mwy:

www.themullanyfund.org

## Cofrestrwch:

themullanyfund.org/Cofrestru

Cronfa Mullany
Elusen symudedd cymdeithasol

**Sgyrsiau Mewnwelediad**

Sgyrsiau ar-lein neu wyneb yn wyneb am gyrfaoedd, opsiynau a cheisiadau. Mae'n faes rydyn ni'n brysur yn ei ddatblygu, gan weithio gyda'n partneriaid:
*SEE Science, Llysgenhadon STEM ac EESW*

**Llwybrau'r Dyfodol**

I rai, mae dilyniant y rhaglen yn arwain at brofiadau Gyrfaoedd a Gwaith. Mae cyfleoedd diweddar wedi cynnwys diwrnod gweithdy gyda'r Ganolfan Arloesi Technoleg Gynorthwyol yn Abertawe, ac wythnos o brofiad gwaith a drefnwyd trwy fentor yn y cwmni peirianneg AECOM

# Bydd ein sesiwn e-Fentora nesaf

**Ychydig funudau sydd angen i berson ifanc gofrestru:**
**https://themullanyfund.org/cy/myfyrwyr/registration/**

**Dysgwch fwy am gynnig Mullany i bobl ifanc yma:**
**https://themullanyfund.org/cy/ein-prosiectau/e-fentora-mullany/**

**Cysylltwch â ni:**
**office@themullanyfund.org**

## Dyddiad cau ar gyfer gwneud cais